

## Cymdeithas Alzheimer's Cymru

Roedd cyfanswm y casgliad a wnaed tuag at Gymdeithas Alzheimer's Cymru yn ystod yr oedfa ar Sul y Fro ddiwedd mis Mehefin yn £306.70. Diolch i chi i gyd am eich haelioni.

## Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

## I ddod

- **CYFARFOD BLAENORIAID A DIACONIAID Y FRO** nos lau, Gorffennaf 26ain yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- **OEDFA I'R FRO** a chyfle i ddiolch i Gwion am ei gyfraniad arbennig i bob oed ym Mro Aled bore Sul, Gorffennaf 29ain yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30. Yn dilyn yr oedfa, bwriadwn gael picnic a barbeciw a chyfle i gymdeithasu. Bydd bara, byrgers a sosejys wedi ei ddarparu i'r rhai fydd wedi rhoi eu henwau i Mair **erbyn dydd Sul, Gorffennaf 22ain**. Dewch â beth bynnag arall fyddech chi'n ei hoffi i'w fwyta a'i yfed hefo chi. Croeso i bawb!
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs Ieuenticid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

*Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*
- **CYFARFOD GWOBRWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 29ain yn Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno am 2.00.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 13:12-16 (BCND tud.118 / BCN tud.108)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, Gorffennaf 15<sup>fed</sup>, 2018

Darlleniad y Dydd

Salm 34:1-8

(BCND tud.507 / BCN tud.463)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso i chi i'r oedfaon ar draws Bro Aled. Mae'n bleser i ni unwaith eto gael dod at ein gilydd fel corff Crist i gael ein hadeiladu a'n cynnal gan ein gilydd a gan Ysbryd Crist, sy'n ein huno (1 Corinthiaid 12).

Tybed ydych chi dros yr wythnosau diwethaf wedi cael eich hudo gan 'world cup fever'? Neu efallai eich bod wedi cael eich tynnu i mewn i'r stori newyddion am y plant oedd yn yr ogof yng ngwlad Thai? Mae'n rhyfedd fel mae rhai darnau o newyddion neu ddigwyddiadau yn tueddu i gymryd gafael yn y boblogaeth – ydych chi'n cofio mor wallgof oedd pobl yn mynd yn ystod cyfnod tîm pêl droed Cymru ym mhencampwriaeth yr Ewros yn 2016? Er iddynt ar y dechrau fod yn ran fechan o'r newyddion neu o'n meddyliau ni, wrth i ni glywed pobl eraill yn sôn amdanynt nhw ac efallai eitemau newyddion yn adrodd yr hanes, mae'r digwyddiadau yma'n chwyddo yn ein dychymyg. Cyn hir, mae'r cyffro yn cymryd gafael ac rydan ninnau'n rhannu'r newyddion hefo pobl eraill, yn eu hannog nhw hefyd i ddilyn y peth. Rydan ni, fel petai, yn mynd o'r 'tu allan' i'r 'tu mewn'.

Tybed a ydy ein siwrne ysbrydol wedi ymddangos fel hyn? Bosib ein bod wedi clywed rhyw si fod pobl yn dod i ffydd. Wedyn, wrth i fwy a mwy o bobl dderbyn Iesu fel iachawdwr, fe aethom i ymchwilio i mewn i'r peth ein hunain. Wrth ddysgu mwy a dechrau gweddio, fe ddaethom i gredu ein hunain ac i ddweud fel mae Salm 34 yn dweud: "Ro'n i wedi troi at yr ARGLWYDD am help, ac atebodd fi. Achubodd fi o'm holl ofnau." <sup>5</sup> Mae'r rhai sy'n troi ato yn wên i gyd; does dim mymryn o gywilydd ar eu hwynebau". Mae'r profiad rhyfeddol o gael ein hachub gan waed Iesu yn trawsffurfio ein bywydau yn llwyr: rydym yn pwysu arno fo ac mae rhyw lawenydd yn treiddio yn ddwfn i mewn i'n calonnau.

Ond, ydym ni wedi mynd at y cam nesaf? Ydym ni'n rhannu'r llawenydd a'r cyffro sydd wedi ein heffeithio ni? Ydym ni'n gallu uniaethu gyda dechrau Salm 34? "Dw i am frolio'r ARGLWYDD! Bydd y rhai sy'n cael eu cam-drin yn clywed ac yn llawenhau!" <sup>3</sup> Dewch i ganmol yr ARGLWYDD gyda mi! Gadewch i ni ei foli gyda'n gilydd!" Ydym ni eisiau i bobl eraill wybod am y cyffro a'r bywyd sydd i'w gael yn Iesu Grist? Tybed ydym ni'n dal i gredu fod cyffro a bwrlwm i'w gael yn yr Efengyl? Dewch i ni ymhyfrydu yn yr Arglwydd a gadael i'r cyffro a'r llawenydd orlifo allan ohonom.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.
- Gwener – 20<sup>fed</sup> ➤ **C.I.C. Dros Nos** (Clwb Ieuenctid Cristnogol ar gyfer pobl ifanc bl.7-9) – Bwriedir gwersylla tu cefn i Neuadd Owen, Cefn Meiriadog o 7.30 nos Wener tan 10.00 bore Sadwrn. Holwch Gwion am fwy o fanylion a ffurflen ganiatâd. Enwau erbyn dydd Llun (16<sup>eg</sup>), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 17<sup>eg</sup> ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Festri Llansannan o 1.30-3.30.
- Mercher – 18<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **HEDDIW (15<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 15<sup>fed</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 22<sup>ain</sup> ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536  
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.